

Ysgol Mynydd Bychan



Polisi Cydberthynas a Rhywioldeb

Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn mynd i'r afael â'r gofynion cyfreithiol o ran Addysg Rhyw ar gyfer ysgolion sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Addysg 2002 ac yn ystyried goblygiadau Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae ein polisi blaenorol wedi'i ddiwygio i ystyried y strategaethau cenedlaethol canlynol a chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol, 2010 -2015
- Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, Cwricwlwm i Gymru 2022
- Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

<https://llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru-y-cod-addysg-cyd-berthynas-rhywioldeb>

Cysylltiadau â pholisïau eraill

Ni ddylid gweld y polisi hwn ar ei ben ei hun gan fod ganddo gysylltiadau clir â'r polisïau ysgol canlynol:

- Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)
- Preifatrwydd
- Diogelu
- Gwrth-fwlio
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Cwricwlwm i Gymru: Crefydd, gwerthoedd a moeseg

Rhesymeg

Nod Ysgol Mynydd Bychan yw darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol, emosiynol a chorfforol pob disgybl ac yn eu paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a heriau bywyd fel oedolyn.

Mae llywodraethwyr a staff ein hysgol yn credu bod ABCh yn elfen hanfodol mewn addysg gytbwys a chyfannol.

Addysgir Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ein hysgol yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru 2022 – Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Mae'r cynnwys yn seiliedig ar llinynnau

dysgu cysylltiedig bras, sef:

- cydberthnasau a hunaniaeth
- iechyd rhywiol a lles
- grymuso, diogelwch a pharch.

Mae'r llinynnau hyn yn caniatáu i ymarferwyr gynllunio a datblygu cwricwlwm sydd wedi'i deilwra i ddysgwyr Ysgol Mynydd Bychan, sy'n creu cysylltiadau ac sy'n datblygu cyd-destunau dysgu dilys ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

Ymdrinir â'r themâu canlynol fel rhan o addysg cydberthynas a rhywioldeb: cydberthnasau; hawliau a thegwch; rhyw, rhywedd a rhywioldeb; cyrff a delwedd gorfforol; iechyd rhywiol a lles; a thrais, diogelwch a chymorth. Mae'r themâu hyn wedi'u plethu yn y llinynnau dysgu.

Ym mhob un o'r llinynnau dysgu, fe fydd cynnwys y cwricwlwm addysg cydberthynas a rhywioldeb yn gynhwysol ac yn adlewyrchu amrywiaeth. Byddwn yn cynnwys gwaith dysgu sy'n datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ein dysgwyr o wahanol hunaniaethau, safbwyntiau a gwerthoedd ac amrywiaeth o ran cydberthnasau, rhywedd a rhywioldeb, gan gynnwys bywydau LHDTTC+.

Mae hawliau a thegwch yn rhan o bob llinyn, yn ogystal â gwreiddio dysgu a phrofiad drwy ddulliau dysgu seiliedig ar hawliau.

Fe fydd yr addysg cydberthynas a rhywioldeb a ddarperir gan ein hysgol yn briodol i ddatblygiad dysgwyr.

Credwn y bydd rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) sydd wedi'i gynllunio'n dda yn arfogi'r dysgwyr â'r sgiliau a'r wybodaeth i wneud dewisiadau diogel a chyfrifol wrth iddynt dyfu i fyny.

Rydym yn cydnabod ein bod yn byw mewn cymdeithas amrywiol a bydd dysgwyr yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd teuluol. Bydd ACRh yn cael ei ddysgu o fewn fframwaith gwerthoedd eang ac ni fydd credoau ac agweddau personol athrawon yn dylanwadu ar addysgu ACRh.

Bydd ein rhaglen ACRh yn anelu at fod yn sensitif a pharchu gwahaniaethau wrth alluogi dysgwyr i ddeall pwysigrwydd amgylchedd sefydlog, diogel a chariadus i fywyd teuluol.

Nodau

Bydd ein rhaglenni astudio yn anelu at helpu dysgwyr i symud yn hyderus o'u plentyndod trwy ieuenctid i fod yn oedolion ac i:

- ddatblygu agweddau a gwerthoedd cadarnhaol sy'n dylanwadu ar y ffordd maent yn ymddwyn
- dechrau datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau cyfrifol a hyddysg am ieuchyd a lles rhywiol
- ennill parch tuag atynt eu hunain ac eraill
- gwerthfawrogi amrywiaeth a dathlu gwahaniaeth
- meithrin perthnasoedd llwyddiannus
- gwerthfawrogi pwysigrwydd perthnasoedd personol sefydlog a chariadus
- cydnabod y gwahaniaeth rhwng cyffwrdd ac ymddygiad priodol ac amhriodol
- gwybod sut i gael cyngor a chefnogaeth briodol

Rheoli a threfnu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

- Bydd y corff llywodraethu yn monitro gweithrediad y polisi ACRh ac yn ei adolygu bob 3 blynedd neu'n amlach os bydd staff, rhieni a neu ganllawiau cenedlaethol / sirol yn nodi materion sydd angen eu trafod.
- Bydd y pennaeth yn sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu ac yn darparu datganiad ysgrifenedig ar gyfer y corff llywodraethu yn adroddiad y Pennaeth.
- Bydd y cydlynnydd lechyd a Lles yn gyfrifol am:
 - llunio'r rhaglen astudio a chysylltu â chydweithwyr i sicrhau darpariaeth ar draws yr ysgol
 - cysylltu ag aelodau'r timau Maes Dysgu a Phrofiad i sicrhau bod yr holl ofynion statudol yn cael eu bodloni.
 - Monitro a gwerthuso'r rhaglen astudio a'r adnoddau a ddefnyddir
 - Ymgynghori â dysgwyr
 - Mynd i'r afael ag anghenion DPP y staff sy'n cyflwyno'r rhaglen
 - Cysylltu ag asiantaethau allanol a chydlynu eu hymglymiad â'r rhaglen ACRh

Cyflwyno'r rhaglen ACRh

Rhennir pob llinyn dysgu yn dri chyfnod datblygiadol eang. Maent yn cynrychioli'r blociau adeiladu ar gyfer dilyniant mewn ACRh. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen, byddant yn adeiladu ar ddysgu blaenorol o'r naill gyfnod neu'r llall, gan atgyfnerthu a chryfhau'r un tueddiadau, gwybodaeth a sgiliau a'u cymhwyso mewn cyd-destunau newydd, perthnasol.

Mae'r dysgu ar gyfer ACRh yn gyfuniad o'r hyn a addysgir yn benodol a'r hyn sydd wedi'i ymgorffori ar draws y cwricwlwm ac yn amgylchedd yr ysgol drwy ddull ysgol gyfan.

Cynnwys y rhaglen ARhPh

Bydd Ysgol Mynydd Bychan yn sicrhau bod y dysgu yn briodol yn ddatblygiadol ar gyfer dysgwyr penodol

1. Cydberthnasau a hunaniaeth

Mae'r llinyn hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- yr amrywiaeth o gydberthnasau y mae pobl yn eu datblygu drwy gydol eu bywydau
- sut y gall ein cydberthnasau a'n rhywioldeb lywio ein hunaniaeth
- pwysigrwydd hawliau dynol wrth sicrhau cydberthnasau iach, diogel a boddhaus mewn cymdeithas gynhwysol.

Fe fydd disgyblion Ysgol Mynydd Bychan yn datblygu'r dealltwriaeth a'r ymddygiadau a fydd yn eu helpu i ddatblygu a chynnal cydberthnasau iach, diogel a boddhaus drwy gydol eu bywydau.

Cefnogir y dysgwyr i adnabod a gwerthfawrogi gwahanol fathau o gydberthnasau, gan gynnwys teuluoedd a chyfeillgarwch, yn ogystal â'r amrywiaeth o fewn gwahanol fathau o gydberthnasau, gan gynnwys amrywiaeth LHDTC+, a sut y gall y rhain newid dros amser. Mae datblygu empathi, tosturi a sgiliau cyfathrebu yn hollbwysig i gydberthnasau dysgwyr nawr a'r cydberthnasau y byddant yn eu ffurfio yn y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn eu helpu i barchu a deall pobl eraill a'u trin yn deg, beth bynnag fo'u rhyw, eu rhywedd, eu rhywioldeb, eu ffydd a'u cred.

Fe fydd dysgwyr hefyd yn datblygu eu hymdeimlad ohonynt eu hunain a'u hymdeimlad bod pawb yn unigryw. Dros amser, fe fydd dysgwyr yn ystyried sut y gall cydberthnasau, rhyw, rhywedd, atyniad rhamantus a rhywiol a phrofiadau personol lywio a dylanwadu ar hunaniaeth person a'r hyn sy'n ei wneud yn unigryw. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ddeall sut y caiff hunaniaeth, cydberthnasau a rhywioldeb eu llywio gan fioleg, technoleg a normau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol ac y gall y rhain newid dros amser. Drwy ymdrin â'r agweddau hyn, fe fydd y dysgwyr yn adnabod ymddygiadau a normau cadarnhaol a niweidiol a byddant yn hyderus i

siarad drostynt eu hunain a lleisio barn ac eirioli dros hawliau pobl eraill a'r angen i'w parchu.

Mae'r llinyn hwn hefyd yn cydnabod sut y gall hawliau gefnogi ac ategu cydberthnasau sy'n llawn parch a thegwch, yn ogystal â chymdeithas deg a chynhwysol.

2. Iechyd rhywiol a lles

Bydd dysgu yn briodol o ran datblygiad ar gyfer dysgwyr penodol

Mae'r llinyn hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- dysgu am y ffordd y mae pethau byw yn tyfu, yn atgenhedlu ac yn mynd drwy gylchred bywyd
- datblygu dealltwriaeth o'r corff dynol, gan gynnwys teimladau pobl am eu cyrff a'r ffordd y gall y teimladau hyn gael eu cynrychioli
- y materion iechyd sy'n gysylltiedig â chydberthnasau a rhywioldeb
- dealltwriaeth o'r ffordd y mae rhywioldeb ac iechyd rhywiol yn effeithio ar ein lles.

Yn natblygiad cynnar, fe fydd y dysgwyr yn profi cyd-destunau ar gyfer deall pwysigrwydd cynnal iechyd a lles personol, gan gynnwys hylendid, a'r ffordd y mae hyn yn effeithio arnyn nhw a phobl eraill. Caiff hyn ei ddatblygu wedyn i gymhwyso egwyddorion iechyd a hylendid cyffredinol at y maes iechyd rhywiol.

Wrth i ddysgwyr ddatblygu, mae angen i'r hyn a addysgir a'r hyn a ddysgir ganolbwyntio ar ystyried y ffordd y mae newidiadau corfforol yn effeithio ar les a chydberthnasau gan sicrhau bod profiadau a bywydau LHDTTC+ yn cael eu cynrychioli.

Mae'r hyn a ddysgir hefyd yn canolbwyntio ar les mislif a chyflyrau sy'n gallu effeithio ar y system atgenhedlu; yn ogystal â datblygu dealltwriaeth o ganlyniadau posibl y penderfyniadau a wneir mewn perthynas ag iechyd a chydberthnasau rhywiol. Bydd y dysgu hyn i gyd yn canolbwyntio ar gydnabod amrywiaeth y corff dynol, a'r ffordd y mae'r canfyddiad a'r ddealltwriaeth o'r corff dynol wedi'u llywio gan gymdeithas, y gyfraith, gwyddoniaeth a thechnoleg, a'r effaith a gaiff hyn ar les.

3. Grymuso, diogelwch a pharch

Bydd dysgu yn briodol o ran datblygiad ar gyfer dysgwyr penodol

Mae'r llinyn hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- hawliau dysgwyr i ddiogelwch ac amddiffyniad a rhyddid rhag niwed a gwahaniaethu
- sut a ble i gael gwybodaeth, help a chymorth

- sut i gefnogi ac eirioli dros hawliau, triniaeth deg a pharch i bawb.

Mae'r llinyn hwn yn adeiladu ar ymddygiadau a sgiliau cadarnhaol cydberthnasau iach.

Mae'n atgyfnerthu'r gofyniad i gefnogi dysgwyr i ddatblygu empathi, caredigrwydd a thosturi tuag at ei gilydd a'u grymuso â'r hyder i ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael os ydynt yn poeni am eu diogelwch eu hunain neu ddiogelwch pobl eraill.

Cefnogir y dysgwyr i ddeall newid a gwrthdaro ac adnabod effaith y rhain ar gydberthnasau, a gofyn am help a chymorth lle bo hynny'n briodol.

Cefnogir y dysgwyr i ddeall bod arfer eu hawl i fod yn rhydd rhag unrhyw fath o wahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod yn cael ei alluogi gan oedolion dibynadwy sy'n gallu eu cadw'n ddiogel. Mae hyn yn cynnwys nifer o fesurau amddiffyn cyfreithiol sy'n bodoli i bawb.

Fe fydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o natur ac effaith gymdeithasol, emosiynol, corfforol a chyfreithiol ymddygiadau niweidiol, gan gynnwys pob bwlio, a bwlio pobl LHDTC+, trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd mewn ystod o gyd-destunau, gan gynnwys ar-lein.

Materion iechyd rhywiol penodol

Byddwn yn anelu at sicrhau bod iaith gyson briodol yn cael ei defnyddio gan athrawon a gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n cyfrannu at y rhaglen ACRh a bod dysgwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio'r un termau yn ystod gwersi.

Lle mae dysgwyr yn gofyn cwestiynau am faterion y tu allan i bamedrau'r cwricwlwm ACRh cynradd, bydd athrawon yn cydnabod y cwestiwn, yn rhoi ateb cryno iawn ac yn awgrymu bod dysgwyr yn siarad â'u rhieni / gwarcheidwaid os hoffent wybod mwy.

Adnoddau

'SENSE - Tyfu i fyny a Chadw'n Ddiogel' a'r adnoddau 'Tyfu i Fyny', straeon, Amser Cylch a doliau babanod sy'n gywir yn anatomegol. Bydd yr adnoddau a ddefnyddir yn adlewyrchu safbwyntiau amrywiaeth o gefndiroedd diwylliannol a chrefyddol.

Cyfrinachedd

Ni all athrawon a gweithwyr iechyd proffesiynol gynnig cyfrinachedd diamod i ddysgwyr mewn ACRh.

- Os yw athro'n clywed neu'n gweld rhywbeth yn ystod gwersi ACRh sy'n awgrymu bod dysgwr mewn perygl o niwed difrifol neu achosi niwed difrifol i

eraill, bydd yn rhybuddio'r aelod staff dynodedig sy'n gyfrifol am weithdrefnau diogelu a diogelu plant

- Bydd defnyddio rheolau sylfaenol y cytunwyd arnynt yn creu ffiniau clir, yn annog dysgwyr i beidio â rhannu gwybodaeth bersonol mewn lleoliad dosbarth ac yn sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu parchu ac yn ddiogel
- Bydd athrawon yn annog dysgwyr i roi eu cwestiynau mewn blwch cwestiynau a fydd yn rhoi 'amser meddwl' i staff cyn ateb
- Os codir cwestiynau o natur bersonol, anogir dysgwyr i siarad â'u rhieni / gofalwyr

Cynnwys dysgwyr

Ceisir barn dysgwyr trwy dechnegau Asesu ar gyfer Dysgu a holiaduron gwerthuso i sicrhau bod y rhaglen yn diwallu anghenion pob dysgwr

Datblygiad proffesiynol parhaus

- Bydd staff allweddol sy'n addysgu ACRh yn cael cyfle i fynychu cyrsiau hyfforddi priodol
- Bydd yr ysgol yn rhannu arfer da trwy arsylwadau ystafell ddosbarth, Cymunedau Dysgu Proffesiynol a thrafodaethau mewn cyfarfodydd staff.

Gweithio gyda rhieni / gofalwyr a'r gymuned ehangach

Yn ôl y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb 2022 nid oes hawl gan rieni / gofalwyr yr hawl i dynnu eu plentyn yn ôl o ACRh.

Bydd yr ysgol yn ymgynghori â rhieni am y rhaglen ACRh trwy bostio gwybodaeth ar wefan yr ysgol, cylchlythyron a chynnal nosweithiau rhieni.

Cyfranogiad gweithwyr iechyd proffesiynol ac asiantaethau allanol

Gofynnir i rieni a gweithwyr iechyd proffesiynol gefnogi cyflwyno ACRh ble bo hynny'n briodol e.e. wrth ddod â babanod newydd i mewn neu siarad am glinigau babanod. Gofynnir i bawb sy'n cyfrannu at y rhaglenni astudio weithio o fewn paramedrau polisi'r ysgol.

Monitro a gwerthuso

- Mae'r cydlynnydd Maes Dysgu Iechyd a Lles a'r Pennaeth yn gyfrifol am fonitro safonau dysgu ac addysgu ACRh
- Bydd y pennaeth yn sicrhau bod canfyddiadau gwerthusiadau staff, rhieni a dysgwyr yn cyfrannu at broses hunanarfarnu'r ysgol ac at y broses adolygu polisi.

Trefniadau ar gyfer adolygu a diweddarau'r polisi

- cytunwyd ar y polisi gan staff / llywodraethwyr ar
- Mae barn rhieni ar ddarpariaeth ACRh yn bwydo i adolygiadau polisi
- Mae barn dysgwyr ar ddarpariaeth ACRh o fewn yr ysgol yn bwydo i mewn i adolygiadau polisi a cheisir amdanynt trwy:
 - Ymgynghori ag aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Lles (disgyblion BI 2 - 6)
 - Gwerthusiadau o raglenni
 - Asesu ar gyfer strategaethau Dysgu

Bydd y polisi'n cael ei adolygu yn 2025

Pennaeth :- S. Evans

Cadeirydd y Corff :- Jennifer Williams

Dyddiad:- 19/10/22